

TREFN BEDYDD PLENTYN

(BAPTISM OF AN INFANT)

Y CYLCH CATHOLIG 1999

TREFN BEDYDD PLENTYN

Derbyn y plentyn

Offeiriad/Diacon: Pa enw a fyynnwch chwi ei roi ar eich plentyn?

Rhieni: **E.**

O: Beth rydych chi'n ei ofyn gan Eglwys Dduw dros **E.**?

Rhieni: **Bedydd.**

O: Wrth ofyn am Fedydd i'ch plentyn, a wyddoch eich bod yn ymgymryd â dyletswydd i'w *fagu/magu* yn y Ffydd, er mwyn *iddo/iddi* garu'r Arglwydd ei *Dduw/Duw* a charu ei *gymydog/chymydog* fel y mae Crist yn ein dysgu i wneud?

Rhieni: **Gwyddom.**

O (wrth y Tad I Tom Bedydd): A ydych chi'n barod i gynorthwyo rhieni'r plentyn hwn i gyflawni'r ddyletswydd hon?

Tad/Mam Bedydd: **Ydym.**

O (wrth y plentyn):

E., mae pobl Crist Iesu yn dy groesawu di gyda llawenydd mawr. Yn enw'r Eglwys yr wyf yn gwneud arwydd y Groes ar dy dalcen, ac yn gwahodd dy rieni (a'th rieni Bedydd) i wneud yn gyffelyb.

BAPTISM OF AN INFANT

Reception of the Child

Celebrant: What name have you given your child?

Parents: **N.**

C: What do you ask of God's Church for **N.**?

P: Baptism.

C: You have asked to have **N.** baptised. In doing so you are accepting the responsibility of training *him/her* in the practice of the faith. It will be your duty to bring *him/her* up to keep God's commandments as Christ taught us, by loving God and our neighbour. Do you clearly understand what you are undertaking?

P: We do.

The celebrant now addresses the Godparents as follows:

C: Are you ready to help the parents of **N.** in their duty as Christian parents?

GP: We are.

The celebrant says to the child:

N., the Christian community welcomes you with great joy. In its name I claim you for Christ our Saviour by the sign of his cross. I now trace the cross on your forehead and invite your parents (and godparents) to do the same.

Gwasanaeth y Gair

[Darlleniad addas]

Daw'r darlleniad o lyfr ...

Darllenydd: Gogoniant i Dduw am Ei Air

***Pawb:* Diolch i ti, O Dduw.**

Ond Efengyl:

Diacon/Offeiriad: Yr Arglwydd a fo gyda chi

***Pawb:* A chyda thithau**

Diacon/Offeiriad: Darlleniad o'r Efengyl yn ôl Mathew/Marc/Luc/Ioan

***Pawb:* Gogoniant i ti, O Arglwydd**

...

Diacon/Offeiriad: Gogoniant i Dduw am ei Air

***Pawb:* Moliant i ti, O Grist**

Pregeth

Liturgy of the Word

[A suitable reading]

A reading from...

Reader: The Word of the Lord.

All: Thanks be to God.

Or a Gospel:

Deacon/Priest: The Lord be With You.

All: And with your spirit.

Deacon/Priest:

A reading from the Gospel according to Matthew/Mark/Luke/John

All: Praise to you, O Christ.

...

Deacon/Priest: The Gospel of the Lord.

All: Praise to you, Lord Jesus Christ.

Homily

Ymbiliau

O: Annwyl frodyr a chwiorydd, gweddiwn ar ein Harglwydd Iesu Grist dros **E. (y plentyn hwn)** sydd ar fin derbyn gras y Bedydd, dros ei *rieni a'i rieni (ei rhieni a'i rhieni)* Bedydd, a thros holl aelodau'r Eglwys.

Darllenydd: Yng ngoleuni dirgelwch dy farwolaeth a'th atgyfodiad di, gofynnwn iti eni'r plentyn hwn o'r newydd yn y Bedydd, a'i *dderbyn/derbyn* yn aelod o'th Eglwys Lân Gatholig: Arglwydd, gwranddo arnom.

Pawb: Arglwydd, derbyn ein gweddi.

Darllenydd: Gofynnwn iti ei *wneud/gwneud* yn ddisgybl ffyddlon iti drwy'r Bedydd, a'i *gadarnhau/ chadarnhau* drwy Fedydd Esgob i fod yn dyst i'th Efengyl: Arglwydd, gwranddo arnom.

Pawb: Arglwydd, derbyn ein gweddi.

Darllenydd: Gofynnwn iti ei *dywys/thywys* drwy fuchedd sanctaidd i lawenydd y nef: Arglwydd, gwranddo arnom.

Pawb: Arglwydd, derbyn ein gweddi.

Darllenydd: Gofynnwn iti roi i'w *rieni a'i rieni (ei rhieni a'i rhieni)* Bedydd y gras i fod yn esiampl eglur *iddo/iddi* o ffydd a gobaith a chariad: Arglwydd, gwranddo arnom.

Pawb: Arglwydd, derbyn ein gweddi.

Darllenydd: Gofynnwn iti gadw ei *deulu/theulu* bob amser yn ffyddlon i'th gariad di: Arglwydd, gwranddo arnom.

Pawb: Arglwydd, derbyn ein gweddi.

Darllenydd: Gofynnwn iti adnewyddu gras ein Bedydd ynom ni i gyd: Arglwydd, gwranddo arnom.

Pawb: Arglwydd, derbyn ein gweddi.

Prayer of the Faithful

Celebrant: My dear brothers and sisters, let us ask our Lord Jesus Christ to look lovingly upon **N. (this child)** who is to be baptised and on *his/her* parents and godparents and on all the baptised.

Reader: By the mystery of your death and resurrection, bathe this child in light, give *him/her* the new life of baptism and welcome *him/her* into your holy Church. Lord, in your mercy:

All: Hear our prayer.

Reader: Through baptism and confirmation make *him/her* your faithful follower and a witness to your gospel. Lord, in your mercy:

All: Hear our prayer.

Reader: Lead *him/her* by a holy life to the joys of God's kingdom. Lord, in your mercy:

All: Hear our prayer.

Reader: Make the lives of *his/her* parents and godparents examples of faith to inspire this child. Lord, in your mercy:

All: Hear our prayer.

Reader: Keep *his/her* family always faithful to your love. Lord, in your mercy:

All: Hear our prayer.

Reader: Renew the grace of our baptism in each one of us. Lord, in your mercy:

All: Hear our prayer.

Y Tynghedu a'r Eneinio

O: Sanctaidd Fair, Fam Duw, * gweddïa drosom.
Sant Ioan Fedyddiwr, * gweddïa drosom.
Sant Joseff, * gweddïa drosom.
Y Saint Pedr a Paul, * gweddïwch drosom.
Mihangel Archangel, * gweddïwch drosom.
Chwi holl Seintiau'r y nef, * gweddïwch drosom.

O: Hollalluog dragwyddol Dduw,
a anfonodd dy Fab i'r byd
i'n gwaredu oddi wrth allu'r gelyn, ysbryd y fall,
i achub y ddynol ryw rhag gormes y tywyllwch,
ac i'n tywys drosodd i deyrnas ryfeddol dy oleuni di,
atat ti y trown mewn gweddi:
ar iti ryddhau'r plentyn hwn o afael y pechod gwreiddiol,
a'i berffeithio'n deml i'th fawredd,
ac yn breswylfa i'r Ysbryd Glân.
Trwy Grist ein Harglwydd.

Pawb: Amen.

O: Bydded i nerth dy Waredwr, Iesu Grist, dy ddiogelu di,
ac yn arwydd o hynny yr ydym yn dy eneinio
di ag olew iachawdwriaeth, yn yr un Crist Iesu, ein Harglwydd,
sydd yn byw ac yn teyrnasu yn oes oesoedd.

Pawb: Amen.

Exorcism & Anointing

C: Holy Mary, Mother of God.	* Pray for us.
St John the Baptist.	* Pray for us
St Joseph.	* Pray for us
St Peter and St Paul.	* Pray for us
Michael, Prince of Angels.	* Pray for us
Ali holy men and women.	* Pray for us

C: Almighty and ever-living God,
you sent your only son into the world
to cast out the power of Satan, spirit of evil,
to rescue us from the kingdom of darkness
and bring us into the splendour of your kingdom of light.
We pray for **N.**: set *him/her* free from original sin,
make *him/her* a temple of your glory,
and send your Holy Spirit to dwell with *him/her*.
We ask this through Christ our Lord.
All: Amen.

C: **N.**, we anoint you with the oil of salvation
in the name of Christ our Saviour:
May he strengthen you with his power,
who lives and reigns for ever and ever.
All: Amen.

Y BEDYDDIO

O: Annwyl frodyr a chwiorydd,
gweddiwn ar i Dduw Dad hollalluog roddi'n helaeth i'r plentyn hwn
y bywyd newydd a geir trwy ddŵr a'r Ysbryd Glân.

Bendithio Dwr y Bedydd

Os yw'r dŵr eisoes yn bendithio, gweler tudalennau 24-25.

O: O Dduw, wrth ddewis pethau elfennol y byd
i fod yn gyfrwng i ryfeddodau dy ras,
yr wyt wedi paratoi dŵr naturiol mewn llawer dull a modd
i fod yn arwydd o ras y bedydd:
yn nechreuadau cyntaf y byd bu dy Ysbryd
yn ymsymud ar wyneb y dyfroedd, gan roi i'r dwr anian sancteiddiol;
yn nyfroedd y Dilyw rhoddaist addewid am yr aileni,
fel y byddai'r un elfen yn gyfrwng effeithiol
i ddileu gwreiddiau pechod ac i esgor ar lendid buchedd;
peraist i blant Abraham gerdded yn droetsych trwy'r Mór Coch,
a'u rhyddhau o gaethiwed yr Aifft
i fod yn rhagarwydd o bobl y bedydd;

pan fedyddiwyd dy Fab gan Ioan yn nŵr yr Iorddonen,
cafodd ei eneinio â'r Ysbryd Glân;
ac wedi ei groeshoelio, dŵr a gwaed a lifodd o'i ystlys;
yna, wedi iddo atgyfodi o'r meirw,
gorchmynnodd i'w ddisgyblion: 'Ewch, dysgwch yr holl genhedloedd,
gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân':

THE BAPTISM

C: My dear sisters and brothers,

God uses the sacrament of water to give his divine life to those who believe in him.

Let us turn to him and ask him to pour out his gift of life from this font on **N.**, whom He has chosen.

Blessing the Baptismal Water

If the water is already blessed, see pages 24-25.

C: Father, you give us grace through sacramental signs, which tell us of the wonders of your unseen power.

In baptism we use your gift of water, which you have made a rich symbol of the grace you give us in this sacrament.

At the very dawn of creation your Spirit breathed on the waters, making them the wellspring of all holiness.

In the waters of the great flood you made a sign of the waters of baptism, that make an end of sin and a new beginning of goodness.

Through the waters of the Red Sea you led Israel out of slavery, to be an image of God's holy people, set free from sin by baptism.

In the waters of the Jordan

your Son was baptized by John and anointed with the Spirit.

Your Son willed that water and blood should flow from his side as he hung upon the cross.

After his resurrection he told his disciples: 'Go out and teach all nations, baptizing them in the name of the Father, and of the Son, and of the Holy Spirit'.

O Dduw Dad, edrych yn dosturiol ar dy Eglwys,
ac agor iddi ffynnon y bedydd.

Anadled dy Ysbryd ras dy Fab ar hyn o ddŵr,
fel y caiff dyn, a grëwyd ar dy ddelw lân di,
olchi ymaith yn sagrafen y bedydd bob aflendid a phechod,
ac atgyfodi i ddiniweidrwydd yr ailenedigaeth o ddŵr a'r Ysbryd Glân.

Trwy dy Fab di, Arglwydd,
disgynned i ddyfroedd y fedyddfa hon rinwedd yr Ysbryd Glân,
fel y bydd pawb a gladdwyd gyda Christ trwy fedydd i farwolaeth
yn cael eu hatgyfodi gydag ef i fywyd.

Trwy Grist ein Harglwydd.

Pawb: Amen.

O: Annwyl rieni a rhieni Bedydd:

Trwy Sagrafen y Bedydd y mae Duw o'i gariad anhraethol
yn rhoi i'r plentyn hwn gael ei aileni o ddŵr a'r Ysbryd Glân.

Eich tasg chwi fydd ei fagu yn y Ffydd,

a'i hyfforddi i garu Duw a chymydog,

fel y bydd i'r bywyd newydd hwnnw gynyddu ynddo fwyfwy
o ddydd i ddydd.

Os ydych gan hynny yn barod mewn ffydd i ymgymryd â'r dasg hon,
gan gofio eich Bedydd chwi eich hunain, ymwrthodwch eto â phechod,
a chyffeswch eto'r Ffydd yng Nghrist Iesu,

Ffydd yr Eglwys, y bedyddir y plentyn hwn ynddi.

Father, look now with love upon your Church,
and unseal for her the fountain of baptism.
By the power of the Spirit
give to the water of this font the grace of your Son.
You created man in your own likeness:
cleanse him from sin in a new birth to innocence by water and the Spirit.
We ask you, Father, with your Son
to send the Holy Spirit upon the water of this font.
May all who are buried with Christ in the death of baptism
rise also with him to newness of life.
(We ask this) through Christ our Lord.
All: Amen.

C: Dear Parents and Godparents,
You have come here to present **N.** for baptism.
By water and the Holy Spirit *he/she* is to receive the gift of new life
from God, who is love.
On your part, you must make it your constant care
to bring *him/her* up in the practice of the faith.
See that the divine life which God gives *him/her* is kept safe from the
poison of sin, to grow always stronger in *him/her* heart.
If your faith makes you ready to accept this responsibility,
renew now the vows of your own baptism.
Reject sin; profess your faith in Jesus Christ Jesus.
This is the faith of the Church.
This is the faith in which **N.** is about to be baptised.

O: A ydych yn ymwrthod â Satan?

Rieni a rhieni Bedydd: Ydwyf.

O: Ac â'i holl weithredoedd?

R&RhB: Ydwyf.

O: Ac â'i holl rwysg?

R&RhB: Ydwyf.

Neu:

O: A ydych yn ymwrthod â phechod, i fyw yn ôl rhyddid plant Duw?

R&RhB: Ydwyf.

O: A ydych yn ymwrthod â hudoliaeth drygioni,
rhag i bechod arglwyddiaethu arnoch?

R&RhB: Ydwyf.

O: A ydych yn ymwrthod â Satan, awdur a thywysog pob pechod?

R&RhB: Ydwyf.

O: A ydych yn credu yn Nuw Dad hollalluog, Creawdwr nef a daear?

R&RhB: Ydwyf.

O: A ydych yn credu yn Iesu Grist, ei unig Fab, ein Harglwydd,
a aned o Fair Forwyn, a ddioddefodd ac a gladdwyd,
a atgyfododd o'r meirw ac sydd yn eistedd ar ddeheulaw'r Tad?

R&RhB: dwyf.

O: A ydych yn credu yn yr Ysbryd Glân, yr Eglwys Lân Gatholig,
cymundeb y saint, maddeuant pechodau,
atgyfodiad y cnawd, a'r bywyd tragwyddol?

R&RhB: Ydwyf.

C: I ask you: Do you reject Satan?

Parents & Godparents: I do.

C: And all his works?

P&G: I do.

C: And all his empty promises?

P&G: I do.

Or:

Do you reject sin, so as to live in the freedom of God's children?

P&G: I do.

Do you reject the glamour of evil, and refuse to be mastered by sin?

P&G: I do.

Do you reject Satan, father of sin and prince of darkness?

P&G: I do.

C: Do you believe in God the Father almighty, creator of heaven and earth?

P&G: I do.

C: Do you believe in Jesus Christ, his only Son, our Lord, who was born of the Virgin Mary, was crucified, died, and was buried, rose from the dead, and is now seated at the right hand of the Father?

P&G: I do.

C: Do you believe in the Holy Spirit, the Holy Catholic Church, the communion of saints, the forgiveness of sins, the resurrection of the body and the life everlasting?

P&G: I do.

O: Hon yw ein Ffydd.

Hon yw Ffydd yr Eglwys,

sydd yn destun gorfoledd inni yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.

Pawb: Amen.

Yr Offeiriad, wrth y Rhieni a'r Rhieni bedydd:

Gan hynny a fynnwch i **E.** dderbyn Sagrafen y Bedydd yn y Ffydd hon yr ydym newydd ei phroffesu gyda'n gilydd?

Y Rhieni a'r Rhieni bedydd: Mynnwn.

Yna mae'r Offeiriad yn bedyddio'r plentyn, gan ddweud:

E., yr wyf yn dy fedyddio di yn enw'r Tad

(gan dy wallt dwr ar dalcen y plentyn)

a'r Mab *(tywallt eilwaith)*

a'r Ysbryd Glân *(tywallt y drydedd waith).*

Yr eneiniad

O: Gan i Dduw hollalluog, Tad ein Harglwydd Iesu Grist,

dy ryddhau di oddi wrth bechod a'th aileni o ddŵr a'r Ysbryd Glân,

bydded iddo ef dy eneinio ag ennaint iachawdwriaeth;

a chan iddo dy arddel yn un o'i bobl a'th wneud yn aelod o gorff Crist,

Offeiriad, Proffwyd, a Brenin,

bydded iddo dy gadw i'r bywyd tragwyddol.

Pawb: Amen.

Eneinia'r Offeiriad y plentyn ar ei gorun, heb ddweud dim.

C: This is our faith.

This is the faith of the Church.

We are proud to profess it in Christ Jesus our Lord.

All: Amen.

The celebrant asks parents and godparents:

Is it your will that **N.** should be baptised in the faith of the Church, which we have all professed with you?

P&G: It is.

The celebrant pours water over the child's head three times while saying:

N., I baptise you in the name of the Father,
and of the Son
and of the Holy Spirit.

The Anointing with Chrism.

C: God the Father of our Lord Jesus Christ
has freed you from sin,

given you a new birth by water and the Holy Spirit,
and welcomed you into his holy people.

He now anoints you with the Chrism of salvation.

As Christ was anointed Priest, Prophet and King,

so may you live always as a member of his body, sharing everlasting life.

All: Amen.

The celebrant anoints the child on the crown of the head with the sacred Chrism, saying no more.

Arwisgo â'r wisg wen.

O: **E.**, yr wyt bellach yn greadigaeth newydd,
ac wedi gwisgo amdanat yr Arglwydd Iesu Grist.
Bydded y wisg wen hon yn arwydd i ti o'th fraint, a bydded i ti,
gyda chymorth dy anwyliaid,
ei dwyn yn ddilychwin i'r bywyd tragwyddol.

Pawb: Amen.

Cyflwyno'r gannwyll olau

O: I chwi, rieni a rhieni bedydd **E.**, yr ymddiriedir y golau hwn i'w gadw,
er mwyn i'r plentyn hwn gael rhodio'n ffyddlon yng ngoleuni Crist,
a chyda holl saint y llys nefol gyfarfod ag ef pan ddaw yn ei ogoniant.

DIWEDDGLO

O: Annwyl frodyr a chwiorydd:

trwy'r Bedydd y mae'r plentyn hwn wedi ei *aileni a'i alw (haileni a'i galw)*
i fod yn blentyn i Dduw;

trwy Fedydd Esgob fe fydd yn derbyn cyflawnder yr Ysbryd Glân;
fe gaiff ddyfod at allor Duw i fod yn gyfrannog o'r Aberth,
ac fe gaiff gyda gweddill y ffyddloniaid alw Duw yn Dad.

Yn awr, yn enw'r plentyn hwn,

a chan ddibynnu ar rodd Ysbryd y mabwysiad a roddwyd inni i gyd,
cydweddiwn gan ddilyn cyfarwyddyd ein Harglwydd:

Clothing with the White Garment

C: **N.**, you have become a new creation,
and have clothed yourself in Christ.

See in this white garment the outward sign of your Christian dignity.
With your family and friends to help you by word and example,
bring that dignity unstained into the everlasting life of heaven.

All: Amen.

Giving the lighted candle

C: Parent and Godparents, this light is entrusted to you
to be kept burning brightly.

This child of yours has been enlightened by Christ.

He/she is to walk always as a child of the light.

May *he/she* keep the flame of faith alive in *his/her* heart.

When the Lord comes, may *he/she* go out to meet him
with all the saints in the heavenly kingdom.

The Ephaphtha Rite is not included in the Welsh Liturgical Text.

CONCLUSION

C: My dear brothers and sisters, this child has been reborn in baptism.

N. is now called the child of God, for so indeed *he/she* is.

In confirmation *he/she* will receive the fullness of the Holy Spirit.

In holy communion *he/she* will share the banquet of Christ's sacrifice,
calling God *his/her* father in the midst of the Church.

In the name of this child, in the spirit of our communion as Christians,
let us pray together in the words our Lord has given us:

Pawb: Ein Tad, y sy yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
bydded dy ewyllys,
ar y ddaear megis yn y nef.
Dyro inni heddiw ein bara beunyddiol,
a maddau inni ein dyledion
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr,
Ac nac arwain ni i brofedigaeth,
eithr gwared ni rhag drwg.

Y Fendith

O: Y mae Duw Dad, trwy ei Fab Iesu Grist, a aned o Fair Forwyn,
yn rhoi i famau Cristnogol lawenhau wrth weld gwawr
y bywyd tragwyddol yn tywynnu ar eu plant:
bydded iddo fendithio'r fam hon, er mwyn iddi,
fel y mae hi yn awr yn diolch am eni ei phlentyn,
gael cydlawenhau ag ef byth bythoedd yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.
Pawb: Amen.

All: Our Father, who art in heaven,
hallowed be thy name,
thy kingdom come,
thy will be done,
on earth as it is in heaven.
Give us this day our daily bread,
and forgive us our trespasses
as we forgive those that trespass against us.
And lead us not into temptation,
but deliver us from evil.

Blessing

The celebrant now blesses the mother, the father and lastly the godparents and assembly.

C: God the Father, through his Son, the Virgin Mary's child,
has brought joy to all Christian mothers,
as they see the hope of eternal life shine on their children.

May he bless the mother of **N**.

She now thanks God for the gift of her child.

May she be one with *him/her* in thanking him for ever in heaven,
in Christ Jesus our Lord.

All: Amen.

O: Duw Dad yw rhoddwr pob bywyd ar y ddaear ac yn y nef:
bydded iddo fendithio tad y plentyn hwn,
a rhoi iddo gyda'i wraig ddysgu'r Ffydd i'w plentyn ar air ac esiempl,
yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.

Pawb: Amen.

O: Y mae Duw Dad, o ddŵr a'r Ysbryd Glân,
wedi ein haileni ninnau i'r bywyd tragwyddol:
bydded iddo, o helaethrwydd ei ras, fendithio'r ffyddloniaid hyn,
a rhoi iddynt bob amser ac ym mhob lle fod yn aelodau bywiog o'i bobl;
a rhodded ei dangnefedd i bawb sydd yma'n bresennol,
yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.

Pawb: Amen.

O: Bendith Duw hollalluog a fo gyda chwi,
y Tad a'r Mab ✠ a'r Ysbryd Glân.

Pawb: Amen.

O: Awn ymaith mewn tangnefedd.

Pawb: Diolch i ti, O Dduw.

C: God is the giver of all life, human and divine.

May he bless the father of **N**.

He and his wife will be the first teachers of their child in the ways of faith.

May they also be the best of teachers, bearing witness to the faith by what they say and do, in Christ Jesus our Lord.

All: Amen.

C: By God's gift, through water and the Holy Spirit, we are reborn to everlasting life.

In his goodness, may he continue to pour out his blessings upon these sons and daughters of his.

May he make them always, wherever they may be, faithful members of his holy people.

May he send his peace upon all who are gathered here, in Christ Jesus our Lord.

All: Amen.

C: May Almighty God, the Father, the Son ✝ and the Holy Spirit, bless you and all those you love.

All: Amen.

C: Go in peace.

All: Thanks be to God.

**ATODIAD: Bendithio uwchben y dwr Bedydd,
pan fo wedi ei fendithio ynghynt:**

O: O Dduw, Tad pob trugaredd,
trwy'r dyfroedd bedydd hyn yr wyt wedi ein llenwi ni
â bywyd newydd plant i ti.

Pawb: Bendigedig fo Duw.

O: Yr wyt wedi gwneud pawb a fedyddiwyd mewn dŵr
ac yn yr Ysbryd Glân yn un bobl, yn dy Fab Iesu Grist.

Pawb: Bendigedig fo Duw.

O: Yr wyt wedi ein rhyddhau gan lenwi ein calonnau ag ysbryd dy ras,
er mwyn inni fyw mewn tangnefedd.

Pawb: Bendigedig fo Duw.

O: Yr wyt yn galw dy bobl fedyddiedig i gyhoeddir Efengyl Iesu Grist i
bawb ym mhob man.

Pawb: Bendigedig fo Duw.

O: Yr wyt wedi galw **E.** i gael ei *olchi/golchi* yn y dyfroedd hyn
er mwyn iddo/*iddi* gyfranogi o ffydd dy Eglwys
a derbyn y bywyd tragwyddol.

Trwy rinwedd y dwr cysegredig hwn tywys *ef/hi* i'r ailenedigaeth.

Trwy Grist ein Harglwydd.

Pawb: Amen.

Nawr trowch i dudalennau 12-13

**APPENDIX: Blessing over the baptismal water,
when the water has been blessed previously:**

C: Father, God of mercy, through these waters of baptism
you have filled us with new life as your very own children.

All: Blessed be God.

C: From all who are baptised in water and the Holy Spirit
you have formed one people, united in your Son Jesus Christ.

All: Blessed be God.

C: You have set us free and filled our hearts with the spirit of your love,
that we may live in your peace.

All: Blessed be God.

C: You call those who have been baptised
to announce the Good News of Jesus Christ to people everywhere.

All: Blessed be God.

C: You have called **N.** to this cleansing water
that *he/she* may share in the faith of your church and have eternal life.
By the mystery of this consecrated water
lead *him/her* to a new and spiritual birth.
Through Christ our Lord.

All: Amen.

Now turn to pages 12-13.

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol.

This page is intentionally blank.

Textual Note

The liturgical texts given in this document are taken from “*Bedydd, Derbyn i’r Eglwys, A Bedydd Esgob – Baptism, Reception into Church and Confirmation*” published by *Y Cylch Catholig* in 1999.

The following note appeared in the original publication.

Nid hwn yw'r cyhoeddiad swyddogol - fe ddaw hwnnw eto - ond fe'i cyhoeddir serch hynny gyda chefnogaeth a bendith Llywydd Y Cylch Catholig, sef y Gwir Barchedig Edwin Regan, Esgob Wrecsam. Y Cylch Catholig biau hawlfrant y fersiwn Cymraeg, ac ICEL (y Pwyllgor Cydwladol ar gyfer Saesneg yn y Litwrgi) sy biau'r fersiwn Saesneg sylfaenol, ar wahàn i ambell weddi a gyfieithwyd o'r Gymraeg. Fe ddylid sylwi nad o'r Saesneg y cyfieithwyd y Gymraeg, ond o'r Lladin.

This is not the official publication of the Welsh Text - that is yet to come - but it is published with the backing and blessing of the Chairman of the Cylch, the Right Reverend Edwin Regan, Bishop of Wrexham. Y Cylch Catholig owns the copyright of the Welsh version, and ICEL (the International Committee for English in the Liturgy) owns the basic English version, apart from some prayers translated from the Welsh. It should be noted that the Welsh is translated from the Latin, not from the English.

In remastering this as a digital document, I have made minor changes:

Adding explicit note of O/Pawb in the Welsh text where this was not in the original;

Using red font and italics where *he/she* distinctions must be made;

Including and distinguishing liturgical responses according to whether the chosen Scripture reading is a Gospel or another text;

For the English liturgical text, conforming to the current usage of Mass for the words surrounding the Scripture readings and response to “The Lord Be With You”.

Y Parch Gareth Leyshon, Caerdydd, Ionawr 2015.